






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o gyngor

4 Medi 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

4 Medi 2020

Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Yn ôl canlyniadau astudiaeth heintiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfer yr wythnos 19 Awst i 25 Awst, amcangyfrifir bod gan 0.05% o boblogaeth gymunedol Cymru COVID-19. Mae hyn yn cyfateb i tuag 1 person ym mhob 2,200 neu 1,400 o bobl yn ystod y cyfnod hwn.
- Amcangyfrifir bod y gyfradd twf bresennol rhwng -0.08 a -0.02. Mae cryn ansicrwydd ynghylch y gyfradd twf wirioneddol; gallai heintiau fod yn crebachu dau i wyth y cant y dydd.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigurau hyn oherwydd meintiau sampl isel a niferoedd achosion.
- Gallai mwy o gysylltedd gynyddu'r broses o drosglwyddo'n lleol mewn lleoliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Felly, mae angen strategaethau clir ar gyfer rheoli risg a chymorth ar gyfer profi, olrhain ac ynysu. Mae angen ystyried iechyd corfforol a meddyliol ehangach dysgwyr a staff y tu hwnt i COVID-19. Mae strategaethau cyfathrebu yn hanfodol i leihau risgiau trosglwyddo. Cyhoeddir papurau llawn ar y pwnc hwn yma: <https://www.gov.uk/government/collections/sage-meetings-september-2020>
- Adroddwyd am achosion o ailheintio â COVID-19. Felly, dylid dilyn y canllawiau presennol, gan gynnwys ar gyfer pobl sydd wedi contractio COVID-19 o'r blaen.
- Nodwyd cyfran gynyddol o brofion cadarnhaol ymhlith pobl iau, ond rhybuddir yn erbyn canolbwyntio ar un grŵp oedran yn unig.
- Mae achosion wedi cynyddu mewn llawer o wledydd yn Ewrop ac er nad yw cynnydd ar yr un raddfa wedi digwydd yn y DU, mae pryder ynghylch mewnfario heintiau gan bobl sy'n cyrraedd y DU.
- Cyhoeddir papurau o SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol a'r Grŵp yma: <https://www.gov.uk/government/collections/scientific-evidence-supporting-the-government-response-to-coronavirus-covid-19#meeting-minutes-and-supporting-papers>

<https://www.gov.uk/government/collections/scientific-evidence-supporting-the-government-response-to-coronavirus-covid-19>.

- Mae papurau ychwanegol a gyhoeddwyd gan y Grŵp Cyngor Technegol ar gael yma: <https://llyw.cymru/cyngor-ar-y-coronafeirws-gan-y-gell-cyngor-technegol>

Cyfradd twf

- Amcangyfrifir bod y gyfradd twf bresennol rhwng -0.08 a -0.02. Mae cryn ansicrwydd ynghylch y gyfradd twf wirioneddol; gallai heintiau fod yn crebachu dau i wyth y cant y dydd.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli cyfradd twf a rhif atgynhyrchu Cymru. Y rheswm dros hyn yw bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar niferoedd achosion isel ac yn cael eu dominyddu gan achosion mewn clystyru ac nid ydynt yn ddigon cadarn i lywio penderfyniadau polisi.

Rhif atgynhyrchu

- Yr amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu R_t ar gyfer Cymru o SAGE yw rhwng 0.50 ac 1. Oherwydd y nifer isel o achosion, dangosir yr amcangyfrif o R_t bellach fel ystod heb amcangyfrif canolog. Mae'r cyfwng hyder mawr yn awgrymu lefel uchel o ansicrwydd ynghylch union werth R_t .
- Bydd gwerth R_t cyson o dan 1 yn arwain at ostyngiad mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty, ond bydd gwerth cyson R_t sy'n uwch nag 1 arwain at gynnydd mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty. Wrth i nifer yr achosion ostwng, gall effaith digwyddiadau gor-wasgaru gynyddu lle gall achosion o ledaenu'r feirws i nifer o bobl mewn cyfnod byr o amser arwain at amrywiadau yn nifer yr achosion.

Yr Amcangyfrif Presennol o R_t yng Nghymru

- Mae tystiolaeth bod amrywiadau bach yn R_t rhwng gwahanol wledydd y DU. Er hynny, mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer Cymru, yr Alban, a

Gogledd Iwerddon yn rhannol oherwydd y niferoedd llai o achosion a marwolaethau o'i gymharu â Lloegr.

- Ni fydd unrhyw newidiadau o ran trosglwyddo a allai fod wedi digwydd yn y ddwy i dair wythnos ddiwethaf yn cael eu hadlewyrchu mewn data clinigol eto, nac ychwaith felly yn yr amcangyfrifon cyfredol o R_t .
- Mae tri lleoliad sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol: y gymuned, cartrefi gofal ac ysbytai. Nid yw'r rhain yn annibynnol; gall haint gael ei ledaenu rhwng ysbytai a chartrefi gofal, o'r lleoliadau hyn yn ôl i'r gymuned, ac i'r gwrthwyneb. Ni ellir casglu'r rhain drwy amcangyfrif R_T ar wahân ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai. Nid yw R_T ond yn ystyried trosglwyddiad i eraill pan fydd y feirws wedi'i gyflwyno mewn poblogaeth benodol.
- Mae SPI-M-O yn argymhell nad yw'r sefyllfa mewn lleoliadau penodol yn cael ei monitro gan ddefnyddio R_t , ond yn hytrach o ran sut mae nifer yr achosion a'r marwolaethau ynddynt yn newid a, lle bo modd, ymchwiliad epidemiolegol i sut mae'r tri epidemig yn rhyngweithio.


Amser haneru

- Ni ellir amcangyfrif amcangyfrifon dibynadwy o amseroedd haneru ar hyn o bryd oherwydd niferoedd isel o dderbyniadau.

Glynu at y mesurau presennol a symudedd


- Mae [data diweddaraf IPSOS MORI ar gyfer Cymru yn dangos](#) gostyngiadau yn y rhai sy'n sicrhau eu bod yn fwy na 2 fetr ar wahân i eraill. Bu gostyngiadau pellach yn y rhai a oedd yn gwneud teithiau hanfodol yn unig ac yn osgoi teithiau nad ydynt yn hanfodol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n bosibl bod y gostyngiadau hyn wedi digwydd o ganlyniad i newidiadau mewn canllawiau trafndiaeth gyhoeddus ganol mis Awst yn ogystal â'r cyfnod diweddaraf ar gyfer penwythnos gŵyl y banc ym mis Awst.
- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys tua 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn

cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru 16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.



- Mae data symudedd yn ystod yr wythnos diwethaf yn dangos cynnydd. Roedd newidiadau mewn symudedd yn uwch na chyfartaledd y DU.
- Yng nghanol mis Ebrill roedd symudedd [defnyddwyr Facebook yng](#) Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen. Mae hyn bellach o gwmpas y llinell sylfaen ac mae wedi cynyddu ers yr wythnos diwethaf. Mae 23% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn aros i mewn, i lawr ychydig o'r wythnos flaenorol. Ar ddechrau mis Ebrill roedd tua 45% yn aros i mewn – roedd hyn tua 18% ar ddechrau mis Mawrth.
- [Mae data Apple](#) sy'n dangos ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu ychydig yn ystod yr wythnos diwethaf (ar gyfer penwythnos gŵyl y banc). O'i gymharu â'r llinell sylfaen mae'r data'n uwch na'r gwledydd eraill. Mae [data symudedd Google](#) yn dangos cynnydd parhaus mewn manwerthu a hamdden. Mae archfarchnadoedd a fferyllfeydd, trafnidiaeth gyhoeddus a pharciau i gyd yn dangos cynnydd.

- Ar ôl cyfnod y cyfyngiadau symud roedd patrymau symudedd yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin gwelodd Lloegr gynnydd mwy mewn symudedd na Chymru, gyda'r Alban yn dangos patrwm tebyg i Gymru. Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd symudedd yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr ac mae hynny wedi parhau drwy gydol mis Awst.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran Symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr-6 Chwefror 2020, yw'r llinell sylfaen.



ONS Infection Study Astudiaeth Heintiau ONS

- Ar gyfer yr wythnos 19 Awst i 25 Awst, roedd gan gyfartaledd o 0.05% o'r boblogaeth gymunedol COVID-19 (cyfwng credadwy o 95: 0.01% i 0.11%).
- Mae hyn yn cyfateb i tuag 1 person ym mhob 2,200 (cyfwng credadwy o 95: 1 o bob 8,300 i 1 o bob 900), neu 1,400 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95: 400 i 3,500).

- Mae data'n awgrymu bod y gyfradd wedi bod yn gymharol sefydlog dros y 6 wythnos diwethaf.
- Bydd cryn ansicrwydd yn yr amcangyfrif hwn nes y bydd maint y sampl yn cynyddu dros wythnosau pellach.

Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 5,369 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19, sef cynnydd o 48 yn y 7 niwrnod diwethaf.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

- Mae nifer y bobl sy'n cysylltu â gwasanaeth 111 y GIG a nifer y galwadau i Galw lechyd Cymru ar gyfer symptomau sy'n ymwneud â COVID-19 yn isel ac yn sefydlog.
- Mae galwadau ambiwlans sy'n gysylltiedig â COVID o bosibl yn sefydlog.
- Yn ystod wythnos 35, cynyddodd nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd yn genedlaethol o'i gymharu â'r wythnos flaenorol ond mae'n parhau'n isel ac mae canlyniad cadarnhaol wedi cynyddu i ychydig yn uwch na 1%. Mae nifer yr achosion sy'n benodol i grwpiau oedran bellach ar eu huchaf yn y rhai iau na 30 oed.
- Mae achosion diweddar wedi cynnwys teithwyr yn dychwelyd o wledydd y tu allan i'r DU a hefyd drosglwyddo lleol mewn lleoedd gwaith a rhwydweithiau cymdeithasol.
- Mae derbyniadau i'r ysbyty ac Unedau Gofal dwys yn isel ac yn sefydlog
- Mae prif ganolfannau'r gweithgarwch diweddar wedi bod yng Nghaerffili, Caerdydd a Merthyr Tudful.
- Mae 1 i 10 o achosion lluosog newydd yn parhau i gael eu hadrodd bob wythnos, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl, ond gyda chynnydd diweddar

mewn lleoliadau eraill gan gynnwys clystyrau ymhlith teulu a ffrindiau ac mewn gweithleoedd.


Dangosfwrdd Data’r GIG

- Diweddarwyd data iechyd Cyhoeddus Cymru ar 02/09/2020
- Diweddarwyd data ysbytai ar 03/09/2020


UNEDAU GOFAL DWYS LEFEL 3

- O blith y cyfanswm o 129 o gleifion mewn Unedau Gofal Dwys lefel 3 yng Nghymru (sydd wedi cynyddu o 123 ers yr adroddiad blaenorol):
 - Mae 1 yn glaf COVID a gadarnhawyd (yn CVUH)
 - Amheuir bod 10 yn gleifion COVID (5 yn CVUHB, 3 yn SBUHB a 2 yn ABUHB)
- O blith y byrddau iechyd sydd ag Unedau Gofal Dwys lefel 3:
 - Mae gan CTMUHB yn gyfradd defnydd o 78% (pob claf nad yw'n COVID)
 - Mae gan CGUHB gyfradd defnydd o 53% (gydag 1 wedi'i gadarnhau a 5 claf COVID tybiedig)
 - Mae gan SBUHB gyfradd defnydd o 2% (gyda 3 chlaf COVID tybiedig)
 - Mae gan ABUHB gapasiti o 50% (gyda 2 glaf COVID tybiedig)
 - Mae gan HDUHB a BIPBC gyfradd defnydd o lai na 50%

Daily L3 ICU Confirmed COVID19 Patients



7-day Averages



Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Cuddwybodaeth (PHIA)

- Os yw'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi Tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws yn y gwahanol gyngor a roddir.

